**PDZ14. TRWYN CILAN I GARREG DDU:**





## Trwyn Cilan i Garreg Ddu gan gynnwys Ynys Enlli.

**CYNNWYS**

**Tudalen**


| | | |
|---|---|---|
| PDZ14. TRWYN CILAN I GARREG DDU: | | 8 |
| 1 | Disgrifiad Lleol | 11 |
| 2 | Prosesau'r Arfordir | 14 |
| 3 | Senarios Rheoli | 18 |
| 4 | Cymhariaeth ac Asesiad Cryno o Senarios man cychwyn. | 24 |
| 5 | Trafodaeth a Datblygu Polisi Manwl | 27 |
| 6 | Crynodeb Rheoli. | 30 |




*Parth Datblygu Polisi 14*

## Diffiniadau o Senarios a Ystyriwyd wrth Ddatblygu Polisi

Mae'r adran hon yn diffinio'r amrywiol senarios sy'n cael eu defnyddio o hyd wrth drafod y Parth Datblygu Polisi.

| Cynnydd yn Lefel y Môr |
|---|
| Mae'n cael ei dderbyn bod ansicrwydd o hyd ynghylch cynnydd yn lefel y môr (SLR). Gall cymryd gwahanol senarios cynnydd yn lefel y môr effeithio ar faint unrhyw effaith neu amseriad rhai newidiadau, naill ai o ran rheoli cynaliadwy neu o ran effeithiau. Yn y drafodaeth isod o'r senarios rheoli man cychwyn a gwahanol, defnyddiwyd canllawiau DEFRA ar gynnydd yn lefel y môr yn gyffredinol. Pan fo teimlad, yn unrhyw ardal benodol, bod effaith cynnydd yn lefel y môr yn arwyddocaol ac y gallai newid cyd-destun rheoli, caiff y drafodaeth hon ei chynnal mewn blwch ar wahân, perthnasol i'r darn hwnnw o destun. |

**Senarios rheoli;**

*Senario Digyfyngiad*
Dan y senario hwn, caiff ymddygiad yr arfordir ei ystyried fel pe na bai unrhyw amddiffynfeydd o waith dyn, i bob diben fel pe na baent yno mwyach yn ddirybudd. Er bod rhaid cydnabod mai senario hollol ddamcaniaethol yw hwn, mae'n rhoi gwell dealltwriaeth o sut ydym yn dylanwadu ar ymddygiad yr arfordir ac, felly, y pwysau ac effaith ehangach sy'n cael eu cyflwyno. Mae hyn yn cynorthwyo asesu'n gyntaf sut fyddai'r arfordir eisiau newid, ond hefyd mae'n cynorthwyo diffinio terfynau rhyngweithiad y dylai'r CRhT fod yn eu hystyried.

*Senarios Man Cychwyn*

- ***Dim Ymyriad Gweithredol (NAI) – Senario 1****,* lle na fyddai unrhyw waith ychwanegol i gynnal neu newid amddiffynfeydd. Ar ddiwedd eu bywyd gweddilliol, byddai adeileddau'n methu. Ni fyddai uchder amddiffynfeydd yn cael ei gynyddu i wella safonau amddiffyniad.
- ***Gyda Rheoli Presennol (WPM) – Senario* 2**. Mae'r senario hwn yn cymhwyso'r polisïau a bennwyd yn CRhT1 neu, pan fo hynny'n berthnasol, mae'n derbyn polisïau a ddiweddarwyd neu a eglurwyd, os gwnaed gwaith dilynol, e.e. astudiaethau neu strategaethau. Mewn llawer o fannau, nid yw'r agwedd at reolaeth a ddiffiniwyd yn CRhT1 ond yn cwmpasu cyfnod o 50 mlynedd. Os felly y mae, tybiwyd mai'r bwriad yw dal i reoli'r arfordir yn y dyfodol fel y mae heddiw. Dylid nodi nad yw WPM o angenrheidrwydd yn awgrymu Cadw'r Llinell ymhob rhan o'r parth. Mewn llawer man gall rheoli presennol fod yn Ddim Ymyriad Gweithredol neu Adlinio Rheoledig.

Nod Dim Ymyriad Gweithredol yw nodi beth sydd mewn perygl pe na bai amddiffynfeydd yn cael eu cynnal. Yn yr un modd, bwriad Gyda Rheoli Presennol yw ymchwilio sut all yr arfordir ddatblygu, gan nodi lle mae buddiannau wrth reoli fel hyn neu ble gall problemau godi yn y dyfodol.

Ar ddiwedd yr isadran hon mae crynodeb a chymhariaeth o'r perygl economaidd ar gyfer pob un o'r senarios man cychwyn, seiliedig ar ddadansoddiad MDSF a wnaed yn ystod CRhT (gan gynnwys canlyniadau astudiaethau eraill pan fo hynny'n berthnasol). Caiff y senarios man cychwyn eu hasesu hefyd o ran sut maent yn rhoi sylw i'r amcanion cyflawn ar gyfer y Parth. Y gymhariaeth hon rhwng y senarios man cychwyn sy'n paratoi'r llwyfan ar gyfer trafod senarios rheoli eraill posibl sy'n rhoi gwell sylw i bob mater. Mae'r drafodaeth hon yn yr isadran ddilynol.

# 1 Disgrifiad Lleol

PDZ14 yw'r arfordir rhwng Trwyn Cilan, trwyn mwyaf deheuol Penrhyn Llŷn, a Charreg Ddu, ochr orllewinol pentir creigiog sy'n gwarchod pentrefan arfordirol bach Porth Dinllaen ar arfordir gogleddol y penrhyn. I bob diben, mae'r parth yn cwmpasu pen de-orllewinol Penrhyn Llŷn i gyd. Clog-glai sy'n ffurfio rhan y morlin sy'n wynebu'r de-orllewin, ac mae dyddodiadau clog-glai meddalach wedi erydu a ffurfio traethau ar linell y torddwr gyda chlogwyni uchel y tu cefn (yn arbennig Porth Neigwl ac Aberdaron).




Bae 6km o hyd yw Porth Neigwl, wedi'i angori gan ddau bentir creigiog Mynydd Cilan a Mynydd Penarfynydd. Mae'r bae agored hwn yn cilio tua'r tir oherwydd erydiad clogwyni a'r arfordir. Saif pentref Llanengan yn nyffryn Afon Soch, sy'n rhedeg yn nodweddiadol rhyw 750m i 1km y tu ôl i draethlin glogwynog y bae. Mae'r clogwyni ar eu hisaf yn Llanengan a hwn hefyd yw'r brif fynedfa at y lan o'r maes parcio ac eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Nhai-morfa. Mae anheddiad bach Rhiw ar ben mwyaf gogleddol y bae, ar y newid rhwng y clogwyni clai meddal a'r clogwyni craig galetach sy'n rhedeg trwodd i Fynydd Penarfynydd. Nid yw'r prif bentref yn cael ei ystyried mewn perygl, er bod symudiad tir wedi effeithio ar eiddo ym Mhlas yn Rhiw a Threheli, ynghyd â'r ffordd o'u blaenau. Mae ffordd yr arfordir yn rhedeg yn agos iawn at gopa'r clogwyni ar ben gogleddol y bae. Symudwyd y ffordd hon yn y gorffennol diweddar y tu cefn i Dreheli a Phlas yn Rhiw. Er ei bod yn rhoi mynediad lleol pwysig, mae'r brif B4413 yn gyfochrog â'r ffordd hon yn llawer pellach tua'r tir. Mae amryw eiddo unigol ar hyd copa clogwyni Porth Neigwl, yn enwedig ar ei ben gogleddol.

Clogwyni creigiog yn bennaf yw'r darn o forlin rhwng Porth Neigwl ac Aberdaron, gyda bae creigiog bach meddal Porth Ysgo. Ffurfiwyd ynysoedd bach Ynys Gwylan-fawr ac Ynys Gwylan-fach o'r un brigiad daearegol ag Ynys Enlli fwy ac, er nad oes datblygiad dynol ar yr ynysoedd hyn, maent yn cynnal poblogaeth fagu bwysig o Balod.

Ar hyd yr arfordir tua'r gorllewin mae Aberdaron. Dyma'r anheddiad mwyaf ar yr arfordir yn y PDZ hwn ac mae'n cynnal y cymunedau gwledig oddi amgylch. Mae modd rhannu glan Bae Aberdaron yn ddau hanner gwahanol, glan amddiffynedig gorllewin y bae, gan gynnwys y 'tafod' gwneud a adeiladwyd yng ngheg Afon Daron a'r clogwyni diamddiffyn, sy'n erydu i'r dwyrain o'r pentref. Yn debyg iawn i Borth Neigwl, mae'r bae hwn yn cael ei ddal yn ei le gan y ddau bentir creigiog caletach ar y ddau ben, Pen y Cil a Thrwyn y Penrhyn. Ar hyd darn amddiffynedig y lan ac yn ei ben pellaf i'r dwyrain, mae amddiffynfeydd yn bodoli i warchod y llethr arfordirol esgynnol a ffordd yr arfordir y tu ôl iddo. Draeniwyd y llethr hwn yn helaeth hefyd. Mae'r prif bentref yn y cwm ac yn union y

**Glan Môr Aberdaron**




tu ôl yr amddiffynfeydd mae'r hen eglwys a'i mynwent, dau westy a chanol y pentref. Y llithrfa yw'r brif fynedfa i'r traeth ymwelwyr pwysig.

Mae ffordd yr arfordir yn rhedeg dros bont Afon Daron, gan ymuno â'r B4413. Yna mae ffordd yn arwain allan o'r pentref tua'r gorllewin, gan godi'n serth uwchlaw'r llethr arfordirol amddiffynedig i'r gorllewin o Afon Daron.

I'r gorllewin o Fae Aberdaron, mae'r tir yn codi'n serth i'r clogwyni cyn-Gambriaidd, creigiog sy'n ffurfio'r pen mwyaf deheuol Penrhyn Llŷn.

Brigiad craig igneaidd alltraeth yw Ynys Enlli, tua $1km^2$ o arwynebedd, tua 3km i'r de-orllewin o Ben Llŷn. Clogwyni uchel a phentir Mynydd Enlli yw prif olygfa'r ynys o'r tir mawr ac mae'n cuddio'r tir isel sy'n ffurfio llawer o ochr orllewinol yr ynys. Rhwng pen deheuol yr ynys a'r rhan ogleddol mae culdir, gyda thraeth tywodlyd bach ar ei ochr ogleddol. Ym mae deheuol y culdir mae glanfa fach ac ar y pentir deheuol mae goleudy a hofrenfa. Mae llawer o'r eiddo gwasgaredig a safleoedd treftadaeth ar hyd rhan ganol yr ynys ac ymhell yn ôl o ymyl yr arfordir.

Clogwyni creigiog, brigiadau a llwyfannau a chilfachau a baeau lle amlygwyd nodweddion rhewlifol meddalach sy'n nodweddu darn gogleddol y morlin o Drwyn y Gwyddel i Garreg Ddu ar arfordir gogleddol y penrhyn. Ar y darn hwn o forlin nid oes unrhyw ddatblygiad dynol o bwys ar wahân i fferm achlysurol, a gysylltwyd â'r anheddau mwy ar hyd ffyrdd mewndirol.




Y tu cefn i'r pedwar bae tywodlyd rhwng Trwyn y Gwyddel a Charreg Ddu (Porth Oer, Porth Iago, Porth Colmon a Phorth Tywyn) mae clogwyni clai meddal gyda brigiadau craig galetach. Nid oes amddiffynfeydd dynol yn unrhyw un o'r baeau a'r unig ddatblygiad yw caffi traeth a maes parcio ym Mhorth Oer, gan dynnu sylw at arwyddocâd adloniant a thwristiaeth i'r cylch. Yn wir, enwyd Porth Oer yn ddiweddar yn un o 50 traeth gorau'r byd[1]. Er ei bod yn anghysbell, mae rhan hon yr arfordir yn bwysig iawn yn lleol a rhanbarthol i'r cylch ehangach gyda chysylltiad pwysig ag anheddiad hanesyddol, yn enwedig yn rhan ddeheuol y penrhyn ac ar Ynys Enlli.




Dynodwyd amryw adeiladau rhestredig ar hyd y lan hon, yn arbennig yn Aberdaron lle mae llawer o fythynnod rhestredig ac Eglwys Hywyn Sant. Mae Eglwys y Santes Fair ar Drwyn Maen Melyn yn Heneb Restredig.

Mae gwerth treftadaeth Ynys Enlli, oddi ar arfordir deheuol y penrhyn, yn fawr ac mae yno lawer o adeiladau rhestredig gan gynnwys adfeilion llawer o gapeli, abatai, hen ysgol ac odynnau calch. Mae gan yr ynys hefyd chwech o Henebion Rhestredig gan gynnwys Abaty Ynys Enlli. Nid yn unig mae'r ynys hon yn bwysig yn ddaearegol ac yn adaregol, ond mae ganddi bwysigrwydd hanesyddol arwyddocaol.

Gan symud ar hyd morlin gogleddol, creigiog y penrhyn, i gyfeiriad y Garreg Ddu, ychydig sydd o ddiddordeb hanesyddol penodol, heblaw am ychydig fythynnod rhestredig tua'r tir ac anheddiad cylch cutiau cyn hanes i'r gogledd-orllewin o Anelog.

Dynodwyd yr ardal arfordirol gyfan hon yn Ardal Cadwraeth Morol Arbennig (ACA), yn cwmpasu amrywiaeth o greigresi isarforol. Ar wahân i Aberdaron a'r darn o arfordir rhwng gogledd Porth Oer a Phorth Ysglaig dynodwyd y rhan fwyaf o'r morlin hwn, gan gynnwys Ynys Enlli, yn SoDdGA oherwydd ei arwyddocâd daearegol.

Dynodwyd pen de-ddwyreiniol Porth Neigwl, Ynys Enlli a'r morlin rhwng gogledd Aberdaron a Phorth Oer i gyd yn Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig oherwydd eu rhywogaethau adar amrywiol.

## 2 Prosesau'r Arfordir

Mae rhanbarth glan môr deheuol y PDZ hwn yn hollol agored i ymchwyddiadau deheuol Môr Iwerydd. Mae Porth Neigwl, sy'n cael ei gadw yn ei le gan y ddau bentir creigiog, yn erydu tua'r tir oherwydd bod yr ymchwyddiadau de-orllewinol yn naddu'r clogwyni clog-glai meddal i ffurfio ehangder mawr y traeth.

Gall glan Porth Neigwl fod yn eithaf ymatebol i amrywiadau bychan yng nghyfeiriad y tonnau ac mae amrywiad arwyddocaol yn y patrymau erydiad ar hyd y cefndraeth o ganlyniad. Yn arbennig, cofnodwyd yn y gorffennol y bu cyfnodau o erydu lleol ar draws y lan ddeheuol gyda thwyn y tu cefn iddi. At ei gilydd, fodd bynnag, dylanwad cryf yr hinsawdd donnau o'r de-orllewin yn pwnio'r bae sy'n diffinio siâp yr arfordir a gall y traeth ailadeiladu'n lleol. Mae'r draethlin gyfan mewn cyflwr o gilio graddol ond mae methiant clogwyni'n cyflenwi gwaddod i'r gyfundrefn. Yna caiff y gwaddod hwn ei ailddosbarthu dros ardal y bae cyfan, fel nad yw cydbwysedd fyth yn cael ei gyflawni. Mae hyn yn golygu, gydag eithriad bach yr ardal ddeheuol, nad yw'r cefndraeth clogwynog fyth yn gallu datblygu llethr sefydlog.


***Clogwyni Porth Neigwl***

Mae mecanwaith methiant y llinell glogwyni hefyd yn newidiol ac mae'n ymddangos bod hyn yr un mor gysylltiedig â phatrwm draenio'r gefnwlad ar wir natur y deunydd sy'n ffurfio wyneb cefn y bae. Mewn rhai ardaloedd, gyda chornel ogleddol y bae'n enghraifft dda o hyn, draeniwyd y clogwyni'n wael gan dderbyn dŵr o'r gefnwlad esgynnol. Canlyniad hyn yw cwympo sylweddol a methiant dwfn o'r clogwyn fel bod llawer iawn o ddeunydd yn llifo i'r draethlin a throsti. Mewn cylchoedd eraill, yn enwedig lle mae draenio'n tueddu i fod oddi wrth yr arfordir i ddyffryn Afon Soch, mae'r clogwyni'n serthach ac yn methu trwy dandorri a dymchwel.


***Porth Neigwl***


Ar ben deheuol y bae mae'r clogwyni is yn elwa ar rywfaint o amddiffyniad ychwanegol o'r pentir ac oherwydd eu bod yn is mae eu llethrau'n llai tueddol o fethu. Hyd yn oed dan y senarios cynnydd mwy eithafol yn lefel y môr mae'n ymddangos nad oes llawer o bosibilrwydd y bydd llifogydd yn mynd trwodd i Afon Soch.

Ymhellach i'r gorllewin mae'r prosesau arfordirol sy'n gweithredu ar y draethlin ar hyd yr arfordir yn llai dramatig, lle ffurfiwyd y pentir o glogwyni serth caletach, yn plymio i ddŵr dwfn.

Caiff ynni'r ymchwyddiadau de-orllewinol ei yrru yn erbyn y clogwyni caletach, ac un o ganlyniadau erydiad dyddodion rhewlifol rhwng y pentiroedd craig galed yw baeau cilfachog iawn Porth Ysgo ac Aberdaron.

Yn debyg iawn i Borth Neigwl, mae Bae Aberdaron y agored i ymchwyddiadau de-orllewinol cryf o Fôr Iwerydd, er bod ffenestr amlygrwydd sylweddol yma'n llai fyth

oherwydd pentir estynedig Uwchmynydd ac Ynys Enlli. Dangosodd yr astudiaeth a wnaed yn dilyn methiant dirybudd y mur o flaen yr eglwys yn 1995 bod gogwydd y bae'n eithaf sefydlog dan y brif hinsawdd donnau ond y gall fod amgylchiadau penodol iawn sy'n peri bod y traethau'n cael eu tynnu i lawr a symudiad yn sylweddol. Mae Bae Aberdaron ar ei hyd dan bwysau i erydu ond gwrthweithiwyd hyn ar lan orllewinol y pentref, gyda gwaith amrywiol i amddiffyn yr arfordir. Caiff y pen gogleddol hwn rywfaint o amddiffyniad ychwanegol hefyd o afreoleidd-dra'r draethlin greigiog tua'r gorllewin. Yn ogystal, mae Afon Daron yn creu effaith trai bach ond arwyddocaol ar y traeth sy'n tueddu i amddiffyn rhywfaint mwy. Ambell waith, gall yr afon hefyd ostwng y traeth, gan gynyddu amlygiad y cefndraeth.




Mae'r ddelwedd uchod yn tynnu sylw at y newid hwn yn siâp y traeth ar hyd y lan, gyda'r llinell goch yn dangos tro naturiol y bae'n fras iawn. O ganlyniad mae'r bae'n ymddwyn mewn dwy ffordd. I'r dwyrain o'r dref mae'r clogwyni'n dal i erydu, lle nad oes unrhyw ffurf ar amddiffynfa. Mae'r traethau'n gymharol iach a sefydlog, ac yn cael cyflenwad gwaddod pwysig o'r clogwyni. Caiff pen gorllewinol y traeth rywfaint o gysgod naturiol ychwanegol ac mae traeth cymharol iach yn yr ardal hon. Rhwng y ddwy ardal hyn mae'r prif bentref, gyda'r adeileddau caled a thafod cyfnerthedig yng ngheg Afon Daron, yn cyfyngu ar led naturiol y traeth. Yn yr ardal hon yn arbennig bydd lefel y traeth yn amrywio'n fawr, er bod y traeth yn gallu ailadeiladu ar hyn o bryd. Caiff y prosesau eu gweld yn benodol fel tynnu'r traeth i lawr, yn hytrach na phroses sy'n cael ei gyrru gan ddrifft ar hyd y glannau.

Yn debyg iawn i'r clogwyni rhwng Porth Neigwl a Bae Aberdaron, ffurfiwyd y morlin o'r pentir i'r gorllewin o Fae Aberdaron ymlaen i Fraich y Pwll o graig galetach ac mae'r clogwyni'n gwisgo a chilio'n arafach.

Gan droi tua'r gogledd-ddwyrain ar hyd yr arfordir, daw prif ynni'r tonnau o'r gorllewin, wrth i ymchwydd Iwerydd o'r de a'r de-orllewin ddiffreithio o gwmpas y penrhyn. O Fraich y Pwll i Garreg Ddu, terfyn yr ardal arfordirol hon, clogwyni caled neu lwyfannau gyda thil drostynt yw'r morlin yn bennaf. Mae'r traethau cilfachog lleol yn dal gwaddod. Ffurfiwyd y baeau hyn yn gyffredinol lle caiff y creigiau meddalach eu hamlygu a'u herydu gan yr ymchwyddiadau gogledd-ddwyreiniol. Ychydig o ddatblygiad dynol sydd ar hyd yr arfordir hwn ac, o ganlyniad, ni wnaed gwaith sylweddol i amddiffyn yr arfordir.

#### CYFRADDAU ERYDIAD MAN CYCHWYN POSIBL

Caiff gwahaniaeth ei wneud rhwng erydiad sylfaenol y draethlin a chiliad clogwyni, sy'n effeithio ar gopa clogwyni a llethrau arfordirol. Mae hyn yn cael ei nodi yn y tabl isod, ynghyd ag elfennau perthnasol eraill. Wrth asesu erydiad a chiliad yn y dyfodol, gwnaed lwfans am gynnydd yn lefel y môr a chaiff hyn ei drafod yn Atodiad C. Caiff hyn ei drafod yn fyr hefyd yn dilyn y tabl isod.

O fewn baeau lleol, bydd cynnydd yn lefel y môr (SLR) yn ffactor sylweddol yn natblygiad y draethlin yn y dyfodol. Fodd bynnag, dros lawer o'r parth ychydig fyddai'r effaith ar erydiad araf iawn y prif glogwyni caled. Lle mae clogwyni neu draethlinau meddalach yn erydu, mae cyflymder yr erydiad yn debygol o gynyddu gyda chynnydd yn lefel y môr. Gallai hyn fod yn o 1.7 i 2.5 gwaith y cyflymder erydu sylfaenol presennol, dros y 100 mlynedd. Lle mae nodweddion mwy sefydlog, fel traethau storm hollol ddatblygedig, byddai'r traeth yn treiglo'n ôl yn naturiol, efallai oddeutu 10m i 40m, yn dibynnu ar natur y traeth a'r arfordir y tu ôl iddo. Wrth i'r traethau, sydd ar hyn o bryd yn amddiffyn llethrau arfordirol cymharol sefydlog, erydu neu dreiglo'n ôl, gallai hyn beri ailysgogi tirlithriadau ac ansadrwydd llethrau.

Fel ym Mae Aberdaron, lle bo cefndraeth caled yn cyfyngu ar y traeth naturiol neu wneud, bydd y cefndraeth yn fwy dylanwadol wrth ryngweithio gydag effaith y tonnau. Lle bo wyneb y traeth yn gallu ymateb ar hyn o bryd ac yn gallu ailadeiladu ar ôl storm arw, yn y dyfodol ni fydd yn gallu gwneud hynny gymaint wrth i ynni'r tonnau gael ei adlewyrchu o'r cefndraeth caled hwn. Gall hyn beri tueddiad i erydu mwy yn yr hirdymor.

| **Lleoliad** | **Cyfradd Sylfaenol NAI (m / flwyddyn)** | **Nodiadau** | **Amrediad Erydu 100 mlynedd (m)** |
|---|---|---|---|
| Porth Neigwl | 0.2 – 0.6 | Cilio'r clogwyni yn ogystal ag erydiad. Llawer o erydiad ar y pen gorllewinol. | 30 - 180 |
| Dwyrain Aberdaron | 0.3 | Cilio'r clogwyni yn ogystal ag erydiad. | 50 - 135 |
| Aberdaron | 0.3 | Erydiad yn dilyn methiant amddiffynfeydd | 30 - 80 |
| Gorllewin Aberdaron | 0.3 | Ansefydlogrwydd clogwyni | 30 - 80 |
| Clogwyni Caled | 0.05 | Ansefydlogrwydd lleol | 5 - 15 |
| | | | |

Aseswyd cyfraddau sylfaenol o ddata arolygu a hanesyddol. Caiff amrediad yr erydiad all ddigwydd ei asesu fel amrywiad o'r gyfradd sylfaenol a sensitifedd i faint all lefel y môr godi. Mae rhagor o fanylion ar gyflymder erydiad ynghyd â mapiau erydiad yn Atodiad C.

#### LLIFOGYDD

Dim ond ym Mae Aberdaron y mae unrhyw berygl sylweddol llifogydd, yn ogystal ag o fewn cwm Afon Daron.

#### AMDDIFFYNFEYDD PRESENNOL

Yr unig amddiffynfeydd sylweddol yn yr ardal arfordirol hon yw'r gwaith yn Aberdaron. Fel arall, nid oes unrhyw amddiffynfeydd gwneud o bwys. I'r gorllewin o Afon Daron mae rhagfur gwaith carreg / carreg arfog yn cynnal y llethr arfordirol ac yn lleihau erydiad y droed. Tua'r dwyrain mae morglawdd gyda ffedog goncrid (gwelwch y ffotograff isod), ynghyd â rhagor o garreg arfog yn amddiffyn yr arfordir o flaen y pentref. Mae mur







concrid yn cyfyngu ar geg Afon Daron, gan ffurfio'r angorfa y mae rhan fwyaf y pentref yn sefyll arni.

### SENARIO DIGYFYNGIAD

Gyda'r senario hwn caiff ymddygiad yr arfordir ei ystyried fel pe na bai unrhyw amddiffynfeydd o waith dyn, i bob diben fel pe na baent yno'n ddirybudd. Er bod rhaid derbyn mai senario hollol ddamcaniaethol yw hwn, mae'n rhoi gwell dealltwriaeth o sut ydym yn dylanwadu ar ymddygiad yr arfordir ac, felly, y pwysau ac effaith ehangach sy'n cael eu sefydlu. Mae hyn yn cynorthwyo asesu'n gyntaf sut fyddai'r arfordir eisiau newid efallai ond hefyd wrth ddiffinio terfynau rhyngweithiad y dylai'r CRhT fod yn eu hystyried.

Yn yr ardal arfordirol hon, byddai'r unig ddarn amddiffynedig o forlin, yn Aberdaron, yn newid yn eithaf sylweddol dan senario digyfyngiad. Mae modd gweld hyn yn siâp y draethlin yn y bae hwn, gyda'r amddiffynfeydd presennol. Ar ben gorllewinol y bae mae'r draethlin yn gwthio allan tua'r môr mewn cymhariaeth â'r draethlin ddiamddiffyn sy'n erydu yn y dwyrain. Gyda senario diamddiffyn, byddai'r arfordir yn Aberdaron ar yr un llinell â'r morlin sy'n erydu ar hyn o bryd.



Ar hyn o bryd, mae'r amddiffynfeydd yn Aberdaron yn rhwystro'r Bae rhag ymddwyn mewn ffordd naturiol ac erydu yn yr un modd â'r clogwyni diamddiffyn i'r dwyrain. Fodd bynnag, pe bai hyn yn digwydd, byddai'r pentref yn dioddef colled sylweddol a byddai'n hybu perygl llifogydd. Adeiledd caled y tafod yng ngheg Afon Daron sy'n peri bod yr afon yn llifo i'r cyfeiriad presennol a gallai tynnu'r adeiledd hwn beri i geg y sianel symud yn sylweddol. Adeiladwyd y morglawdd sy'n amddiffyn yr eglwys a'r fynwent mewn argyfwng, yn dilyn cwymp y morglawdd a'i ailadeiladu wedyn yn 1996. Heb yr amddiffynfa hon byddai'r lan a'r eglwys mewn perygl erydiad. Mae'r morglawdd i'r dwyrain o'r pentref yn dechrau ffurfio pentir fydd, dros gyfnod, yn arwain at ddatblygu dau fae ar wahân. Gyda chynnydd yn lefel y môr, bydd yr amddiffynfeydd dan fwy o bwysau wrth i lefelau dŵr yn y bae gynyddu a chyflymu erydiad yn y bae.

## 3 Senarios Rheoli

3.1 Dim Ymyriad Gweithredol – Senario Man Cychwyn 1.

Yn gyffredinol mae'r arfordir yn yr ardal hon yn erydu. Mewn llawer o fannau mae'r erydiad hwn yn araf iawn, lle bo craig galed ar y draethlin. Mewn rhai ardaloedd mae'r erydiad hwn mewn cydbwysedd cymharol gyda thraethau naturiol yn treiglo'n ôl, gan amlygu llethrau a chlogwyni meddalach y cefndraeth, sydd wedyn yn erydu ac yn creu'r lled i gynnal y traethau naturiol.

Yn Aberdaron mae'r unig ymyriad sylweddol ar y broses hon lle byddai'r amddiffynfa bresennol, i ddechrau, yn rhoi rhyw fath o amddiffyniad rhag erydiad am y 30 i 50 mlynedd nesaf yn fras. Ar ôl hyn mae'r amddiffynfeydd yn debygol o fethu ac, o ganlyniad, byddai'r draethlin yn cilio. Byddai llawer o ganol y pentref mewn perygl erydiad, a mynediad at y pentref ar hyd ffordd yr arfordir o'r dwyrain yn cael ei golli, efallai yn ystod y ddau gyfnod olaf. Byddai mwy o berygl llifogydd hefyd yng nghwm Afon Daron gyda chynnydd yn lefel y môr.

| Effaith gwahanol Senarios Cynnydd yn Lefel y Môr |
| --- |
| Dan amgylchiadau presennol dim ond un eiddo sydd mewn perygl llifogydd uniongyrchol yn ystod digwyddiad eithafol, er bod perygl llifogydd i ganol y pentref oherwydd tonnau'n torri drosodd. Mae effaith ar fwy o eiddo gyda senario cynnydd o 1m yn lefel y môr ond yn dal dan amgylchiadau lefel dŵr mwy eithafol yn unig. Gyda senario cynnydd o 2m yn lefel y môr mae newid sydyn yn yr effaith, gan y byddai llawer o'r eiddo ar hyd glan y môr ac ar y tafod amddiffynedig mewn perygl hyd yn oed gyda lefel llanwau arferol. Byddai dylanwad y llanw'n ymestyn i fyny'r afon o bont y ffordd. Gan ddibynnu ar gyflymder cynnydd yn lefel y môr gallai'r perygl mwy hwn ddigwydd yn ystod y 100 mlynedd nesaf. |

Wrth i amddiffynfeydd fethu, byddai traethlin y bae'n cilio'n gyffredinol ac, wrth i'r draethlin addasu i siâp mwy unffurf, byddai mwy o ansadrwydd yn y llethr arfordirol i'r dwyrain ac i'r gorllewin o Aberdaron. Gallai hyn beri torri'r ffordd allan o'r pentref tua'r gorllewin a byddai'n bendant yn peri colli'r ffordd i mewn i'r pentref o'r dwyrain. Ni fyddai darn diamddiffyn y draethlin yn cael unrhyw fudd o golli amddiffynfa'r prif bentref a byddai'n dal i erydu. Yn ystod y trydydd cyfnod byddai methiant parhaus y clogwyni ar ben dwyreiniol y pentref yn peri colli'r rhes o eiddo ar hyd ffordd yr arfordir. Gyda'r senario man cychwyn hwn byddai craidd Aberdaron yn cael ei golli ynghyd â'r cyfleusterau sylfaenol ar hyd glan y môr. Byddai'r eglwys a'r fynwent yn cael eu colli ac, i bob diben, ni fyddai'r pentref yn ddim mwy na chasgliad o eiddo preswyl ar hyd y ddwy ffordd i'r pentref, gyda thraeth bach yn rhywle yng nghyffiniau'r bont.

Byddai mynediad at y cymunedau gwasgaredig i'r dwyrain ar hyd y ffordd ar y grib y tu ôl i'r pentref. O ran yr amcanion, ni fyddai'r senario hwn yn cynnal swyddogaeth leol bwysig y pentref, ni fyddai'n amddiffyn isadeiledd sylfaenol yr ardal a byddai effaith sylweddol ar werth Aberaeron o ran twristiaeth ranbarthol. Heb ganiatáu i Aberdaron dyfu ar hyd y ddwy ffordd sy'n rhedeg o'r arfordir, byddai ei arwyddocâd yn gostwng i'r un faint â llawer o anheddau bach eraill Pen Llŷn.

Wrth gwrs, gyda threigl amser, byddai golwg yr ardal yn mynd yn fwy naturiol. Byddai hyn yn cyfoethogi naturioldeb y draethlin, ond byddai hynny ar draul rhan ategol bwysig y pentref wrth ddarparu mynediad a llety ar gyfer mwynhau gwerth naturiol ehangach yr ardal gyfan.

Mewn cylchoedd eraill, nid oes unrhyw amddiffynfeydd sylweddol yn bodoli a pholisi CRhT1 yn gyffredinol yw Dim Ymyriad Gweithredol.

Ym Mhorth Neigwl, byddai'r bae cyfan yn dal i gilio. Yn y pen deheuol byddai'r twyni'n dal i erydu'n ôl ond yn datblygu tua'r tir hefyd. Nid oes disgwyl y byddai eiddo'n cael ei golli, er y byddai rhywfaint o dir amaethyddol yn cael ei golli a byddai angen symud y safle gwersylla'n ôl. Ymhellach ar hyd y bae byddai tir sylweddol yn cael ei golli oherwydd erydiad ac wrth i'r llethr arfordirol symud yn ôl. Dim ond i'r gogledd o'r bae y mae disgwyl colli eiddo, gyda chiliad clogwyni'n torri'n ôl mor bell â'r ffordd y tu ôl i Dŷ Mawr a hyd yn oed ymhellach yn ôl yng nghornel bellaf y bae i'r gogledd o Blas-yn-Rhiw. Y gred yw bod y pentrefan o gwmpas Plas-yn-Rhiw ar graig galetach Mynydd Rhiw ac efallai nad yw mewn perygl. Byddai amlygu'r graig galed yn tueddu i arafu'r erydiad yn y gornel, gan gyfyngu ar fethiant y llethr arfordirol ac, yn y pen draw, yn caniatáu datblygu llethr mwy sefydlog.

Byddai erydiad yn torri ffordd yr arfordir a byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar bentref Rhiw. Fodd bynnag, gyda'r senario hwn, byddai'r ffordd yn cael ei cholli hefyd yn Aberdaron ac ni fyddai mwyach yr un mor arwyddocaol i'r cylch cyfan.

At ei gilydd, mae'r senario'n caniatáu parhad datblygiad y morlin naturiol pwysig. Byddai eiddo unigol yn cael eu colli a byddai amhariad ar y llwybrau cludiant yn y cylch.

Ar hyd llawer o weddill y lan, lle mae craig wydn dros ben, byddai prosesau treulio'r llwyfannau craig ac erydu'r clogwyni'n parhau, ond yn araf. Hyd yn oed gyda chynnydd sylweddol yn lefel y dŵr byddai'r erydu hwn yn araf. Gallai'r amcangyfrifon enwol fod yn rhyw 5m o golled trwy erydiad dros y 100 mlynedd nesaf. Byddai hyn yn berthnasol i Ynys Enlli yn ogystal â morlin y penrhyn.

Yn y cilfachau til ar hyd yr arfordir gogleddol, dylai rhyddhau rhagor o waddodion traeth gydag erydiad clogwyni ganiatáu i'r traethau gadw eu huchder uwchlaw'r môr. Felly, ychydig o newid fydd yn cael ei weld yn y parth rhynglanwol, er y bydd proffil y draethlin yn ceisio cilio, gyda thraethau'n mynd yn serthach yn lleol. Byddai'r maes parcio a chaffi'r traeth yn y Porth Oer a'r llithrfeydd a mynediad at y baeau gogleddol hyn yn dod yn broblem dan Ddim Ymyriad Gweithredol ac, fel y rhagwelwyd yn CRhT1, byddai angen rheoli ciliad yr asedau hyn, yn hytrach na'u hamddiffyn.

Fe all cynefin gael ei golli mewn rhai ardaloedd. Er enghraifft, byddai ynysoedd bach Ynys Gwylan-fawr ac Ynys Gwylan-fach yn colli tir ac, felly, yn lleihau cynefin magu Palod. Ar hyd yr arfordir, mae'n debygol y bydd y cynefinoedd dynodedig yn treiglo'n ôl i gyd-fynd â'r morlin. Fodd bynnag, gyda'r tir oddi amgylch ymhellach yn ôl o'r môr, mae

posibilrwydd lleihau cynefinoedd gyda chynnydd yn lefel y môr, wrth amlygu mwy ar y clogwyni.

Gall mynediad at Ynys Enlli ddod yn broblem hefyd gyda senario Dim Ymyriad Gweithredol wrth i lefelau dŵr gynyddu ac wrth i'r morlin a llithrfeydd wynebu erydiad.

| Effaith gwahanol Senarios Cynnydd yn Lefel y Môr |
|---|
| Mae'n amlwg y byddai effaith ar reoli'r glanfeydd ar gyfer Ynys Enlli pe na bai ond o safbwynt eu defnyddio. Gyda chynnydd o 2m yn lefel y môr, byddai angen newid uchder y lanfa'n sylweddol. |

3.2 Gyda Rheoli Presennol – Senario Man Cychwyn 2.

Yr unig ardal gyda pholisi rheoli presennol o gynnal amddiffynfeydd yw Aberdaron. Ymhob rhan arall o'r arfordir byddai senario Gyda Rheoli Presennol fel y trafodwyd uchod yn Senario Man Cychwyn 1.

Nid yw Cynllun Rheoli Llifogydd y Dalgylch (CRhLlD) ar gyfer yr ardal ond yn cyfeirio'n fyr at ran hon yr arfordir ac Aberdaron yn arbennig. Caiff yr ardal ei diffinio yn Uned Bolisi 3 – Pen Llŷn. Daeth y canlynol o Gynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch Gogledd-orllewin Cymru – Cynllun Drafft, Medi 2008.

<table>
<tr><td>Uned Bolisi 3 Pen Llŷn</td><td colspan="2">Mae'r uned hon yn cwmpasu Pen Llŷn o safbwynt arfordirol o'r arfordir gorllewinol pell i gysylltu ag unedau polisi 2 a 5 ar derfyn Parc Cenedlaethol Eryri. Ymhlith y prif drefi a phentrefi mae Aberdaron, Aber-erch, Aber-soch, Chwilog, Cricieth, Llannor a Nefyn.</td></tr>
<tr><td rowspan="10">Problem / Perygl</td><td colspan="2">Nodweddion ffisegol:<br>- Yn draenio Pen Llŷn mae rhwydwaith trwchus o afonydd a nentydd bach yn llifo i gyfeiriad cyffredinol rhwng gogledd a de. Y prif afonydd sy'n draenio'r ardal yw Afonydd Soch, Erch, Rhyd-hir a Dwyfach.<br>- Gwledig yw'r penrhyn yn bennaf gydag anheddau gwasgaredig a thir amaethyddol o ansawdd gradd 3-4 cymedrol a gwael gradd 5 yn nwyrain y penrhyn.<br>- Mae'r rhan fwyaf o'r penrhyn yn AAS gydag Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol o gwmpas yr arfordir.<br>- Tir isel yn bennaf sydd yn yr ardal, heblaw am ychydig ddarnau bach o dir uchel ar arfordir y gogledd. Rhediad eithaf graddol sydd gan fwyafrif yr afonydd yn y dalgylch hwn ac, felly, gallant ymateb yn gymharol araf i lawogydd.<br>- Anhydraidd yn bennaf yw'r priddoedd ac yn dueddol o fynd yn llawn dŵr am gyfnod hir. Mae llif dros y tir yn debygol o ddilyn glaw ar briddoedd dirlawn. Bydd lefel y dŵr yn codi'n gyflym yn rhai afonydd.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Mecanwaith llifogydd:<br>- Llifogydd bach lleol o afonydd.<br>- Darnau bach o lifogydd dŵr arwyneb.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Derbynnydd:<br>- Pentrefi ac anheddau bach yma ac acw ar draws y Penrhyn.<br>- Dynodiadau tirwedd – AAS ac AHNE.<br>- Dynodiadau amgylcheddol – ACA, Ramsar a SoDdGA.<br>Dynodiadau hanesyddol – Adeiladau Rhestredig, Henebion Cofrestredig, Ardaloedd o Dirwedd Hanesyddol, Parciau a Gerddi Cofrestredig.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Crynodeb o berygl llifogydd presennol</td></tr>
<tr><td>Nifer yr eiddo preswyl a masnachol mewn perygl llifogydd o ddigwyddiad llifogydd 1% AEP (gan ddefnyddio parthau llifogydd):</td><td>320</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm iawndal o ddigwyddiad llifogydd 1% AEP (gan ddefnyddio parthau llifogydd):</td><td>£11 miliwn</td></tr>
<tr><td colspan="2">Crynodeb o berygl llifogydd yn y dyfodol (ymhen 100 mlynedd)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Nid oes disgwyl i newid yn yr hinsawdd gael effaith sylweddol ar berygl y llanw i'r holl bentrefi ac anheddau bach ar hyd a lled Pen Llŷn.</td></tr>
<tr><td>Nifer yr eiddo preswyl a masnachol mewn perygl llifogydd o ddigwyddiad llifogydd 1% AEP (gan ddefnyddio parthau llifogydd):</td><td>370</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm iawndal o ddigwyddiad llifogydd 1% AEP (gan ddefnyddio parthau llifogydd):</td><td>£13.5 miliwn</td></tr>
<tr><td>Polisi a ddewiswyd</td><td colspan="2">Polisi 2 – Lleihau camau presennol rheoli perygl llifogydd (gan dderbyn y bydd perygl llifogydd yn cynyddu dros gyfnod).<br><br>Sylwch: mae'r dewis polisi hwn yn golygu cynnydd strategol mewn llifogydd mewn ardaloedd dynodedig, ond ni fwriadwyd iddo effeithio'n andwyol ar y perygl i eiddo unigol.</td></tr>
</table>

Mae'r CRhLlD hefyd yn dod i gasgliad:
*Gyda Dewis Polisi 2, ni fydd y perygl llifogydd yn cynyddu mewn pentrefi fel Aberdaron, Aber-erch, Aber-soch, Chwilog, Cricieth, Llannor a Nefyn.*

Yn Aberdaron, polisi presennol y CRhT yw Cadw'r Llinell. Er nad oedd CRhT1 ond yn ei ddiffinio dros gyfnod o 50 mlynedd, caiff yr agwedd hon ei chymryd yn y senario man cychwyn hwn i ymestyn dros 100 mlynedd CRhT2.

Er eu bod mewn cyflwr cymharol dda, mae'r amddiffynfeydd presennol dan bwysau pe bai ond yn ystod y digwyddiadau mwyaf eithafol heddiw. Ar hyn o bryd caiff y pwysau hwn ei ystyried yn hydrin, gyda'r traeth yn cael ei dynnu i lawr yn achlysurol ac erydu lleol lle mae'r amddiffynfeydd ar ongl i gyfeiriad arferol y tonnau. Mae'r amddiffynfa graig fwyaf gorllewinol islaw'r llethr arfordirol a'r ffordd allan o'r pentref yn gymharol sefydlog ac, oherwydd ei sefyllfa fwy gorllewinol, mae'n cynnal uchder traeth da o flaen yr wyneb craig. Mae'r amddiffynfa ddwyreiniol a mesur draenio'r llethr yn amddiffyn y llethr arfordirol, y ffordd a'r eiddo y tu ôl iddynt yn dda.

Fodd bynnag, mae gwahaniad cynyddol rhwng y lan amddiffynedig hon a'r arfordir diamddiffyn ymhellach i'r dwyrain. Wrth i'r darn diamddiffyn hwn gilio, mae rhan fwyaf amlwg amddiffynfeydd y dwyrain yn gweithredu fwy a mwy fel pentir a bydd yn dal i wneud hynny. Mewn gwirionedd, mae'n cael ei ystyried bod sefyllfa hon yr amddiffynfa'n cynorthwyo cynnal lefelau'r traeth o flaen y prif bentref ac o flaen yr amddiffynfeydd i'r gorllewin o Afon Daron. Erys perygl y bydd y môr yn gorasgellu'r mur dwyreiniol. Gyda'r agwedd linellol bresennol at amddiffyn, y rhagolwg yw y byddai'r amddiffynfa honno'n gorfod cael ei hymestyn fel mur gwrthdro neu ragfur i warchod rhag y bygythiad hwn.

Gyda chynnydd yn lefel y môr, bydd yr amddiffynfeydd yn fwyfwy agored i effaith y tonnau a hynny'n fwy rheolaidd. Yn ei dro, bydd hyn yn tueddu i arwain at achlysuron amlach pan fydd y traeth o'u blaenau'n cael ei erydu a'i dynnu o droed yr amddiffynfa. Gyda'r agwedd gyffredinol bresennol, yr ymateb naturiol i hyn fyddai rhoi craig o flaen y droed, gan gynyddu uchder y graig yn raddol gyda chynnydd yn lefel y môr i ffurfio wyneb craig llawn. Byddai'r broses hon o atgyfnerthu'r mur yn parhau a byddai angen cynyddu uchder y mur cefn i roi sylw i fwy o berygl tonnau'n torri drosto ac, efallai, llifogydd uniongyrchol.

I'r dwyrain, gyda'r bwriad o gadw'r llinell yn ôl y senario hwn, a chynnal digon o lethr arfordirol i amddiffyn y ffordd, byddai gwaith yn gorfod cael ei ymestyn i ddarn diamddiffyn yr arfordir i gyd cyn i'r ffordd droi ymhellach i'r tir. Ar ochr y tafod tua'r tir, byddai angen cynyddu uchder amddiffynfeydd i atal llifogydd.

Gyda'r senario hwn, byddai angen atgyfnerthu'r wyneb craig tua'r gorllewin ond efallai i raddau llai, oherwydd y byddai amddiffynfeydd y pentref yn gweithredu mwy i gadw gwaddod fel bae bach ym mhen gorllewinol y bae. Mae'n cael ei dderbyn y byddai modd edrych yn wahanol ar amddiffyn a chaiff hyn ei drafod yn adrannau diweddarach y ddogfen hon. Fodd bynnag, ar yr adeg hon nid yw'r drafodaeth ond yn archwilio bwriad cyffredinol cadw'r llinell, gan ddilyn estyniad nodweddiadol a rhesymegol o arfer cyfredol.

O fewn cyfnod 100 mlynedd y CRhT, yn ôl yr arfer cyfredol hwn, y rhagolwg yw y byddai amddiffynfeydd Aberdaron yn cael eu hatgyfnerthu'n unol â chynnydd yn lefel y môr. Felly, mae'r senario'n cynnwys datblygu wyneb craig ar hyd glan môr cyfan y pentref, gan ymestyn y tu hwnt i'r darn presennol i'r dwyrain. Byddai'r traeth yn gostwng er y byddai darn bach o draeth yn aros yng ngheg Afon Daron. Er y byddai'r pentref yn cael ei gynnal, byddai ei atyniad fel lleoliad glan môr yn lleihau yn y pen draw. Byddai mwy a mwy o ddibynnu ar amddiffyniad yn erbyn methiant dirybudd a phosibilrwydd colli rhan sylweddol o'r pentref. Ar ben hynny, byddai angen ymestyn amddiffynfeydd i'r dwyrain, efallai ryw 300m dros gyfnod y CRhT.

Effaith gwahanol Senarios Cynnydd yn Lefel y Môr

Byddai faint fyddai angen cynyddu uchder amddiffynfeydd Aberdaron yn dibynnu'n fawr iawn ar gyflymder cynnydd yn lefel y môr. Fel y trafodwyd, nid yw'r drefn bresennol angen mwy na chynnal a chadw rheolaidd. Mewn gwirionedd daw'r prif broblemau gyda'r amddiffynfeydd presennol ar hyn o bryd wrth i amlder yr amlygrwydd i donnau a lefelau dŵr gynyddu. Yn ôl canllawiau DEFRA gellid disgwyl y byddai angen gwella amddiffynfeydd troed yn ystod y 50 mlynedd nesaf. Byddai'r angen i wella perfformiad y morgloddiau at ei gilydd wrth i lefel y môr gynyddu i 1m uwchlaw'r presennol. Gyda senario 1m byddai'r morgloddiau presennol yn cael eu hamlygu i effaith y tonnau bob llanw mawr, gyda'r droed bresennol dan ddŵr fel sy'n gallu digwydd heddiw gyda digwyddiad eithafol 1:100 mlynedd. Gyda senario cynnydd o 2m yn lefel y môr, gallai'r angen i gynyddu amddiffynfeydd ddod ymlaen rhyw 20 i 30 mlynedd ynghyd â'r angen i gael wyneb craig llawn o flaen y muriau ymhell oddi mewn i oes CRhT2. Byddai'r angen i ymestyn amddiffynfeydd i'r dwyrain yn digwydd yn gynharach hefyd.

Er bod y senario hwn yn cynnal swyddogaeth naturiol arfordir yr ardal ehangach at ei gilydd ac y byddai, felly, yn cynnal tirwedd a gwerthoedd naturiol pwysig yr ardal, byddai Aberdaron yn colli cymeriad y pentref ac, yn arwyddocaol, yn colli llawer o arwynebedd ei draeth, ynghyd â gallu defnyddio cychod a chwaraeon dŵr. Byddai'r cynnydd mewn amddiffynfeydd yn codi mater cynaliadwyedd hirdymor a byddai ymestyn amddiffynfeydd i'r dwyrain yn effeithio ar y dirwedd naturiol, sy'n bwysig i'r pentref. Fodd bynnag, ni fyddai'n effeithio'n uniongyrchol ar warchodfeydd natur dynodedig.

Caiff yr effeithiau o ran amcanion ar gyfer yr ardal gyfan eu crynhoi yn Nhabl 2 isod, gyda'r iawndal economaidd all ddeilio yn Nhabl 1.

## 4 Cymhariaeth ac Asesiad Cryno o Senarios man cychwyn.

### Tabl 1. Asesiad Economaidd

Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o iawndal erydiad a bennwyd gan ddadansoddiad MDSF CRhT2 ar gyfer y PDZ cyfan. Mae rhagor o fanylion yn Atodiad H. Pan fo astudiaethau'n darparu gwybodaeth fanylach, mae hyn yn cael ei nodi. Bwriad y tabl yw rhoi asesiad lefel uchel dechreuol o iawndal all godi dan y ddau senario man cychwyn.

**ASESIAD O IAWNDAL ERYDIAD**

| Cyfnod | 0 – 20 mlynedd | | | 20 – 50 mlynedd | | | 50 – 100 mlynedd | | | 50 – 100 mlynedd (2m o gynnydd yn lefel y môr) | | Gwerth Presennol Iawndal (£x1000) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dim Ymyriad Gweithredol** | **Nifer yr eiddo:** | | **Gwerth x £k** | **Nifer yr eiddo:** | | **Gwerth x £k** | **Nifer yr eiddo:** | | **Gwerth x £k** | **Nifer yr eiddo** | | |
| *Lleoliad* | *Pres.* | *Masn.* | | *Pres.* | *Masn.* | | *Pres.* | *Masn.* | | *Pres.* | *Masn.* | |
| Porth Neigwl | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 340 | 2 | 0 | 49 |
| Dwyrain Aberdaron | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4 | 1 | 851 | 4 | 1 | 45 |
| Aberdaron | 0 | 0 | 0 | 2 | 5 | 459 | 12 | 4 | 1,407 | 16 | 9 | 306 |
| | | | | | | | | | | | **Cyfanswm PDZ1** | **399** |
| **Gyda Rheoli Presennol** | **Nifer yr eiddo:** | | **Gwerth x £k** | **Nifer yr eiddo:** | | **Gwerth x £k** | **Nifer yr eiddo:** | | **Gwerth x £k** | **Nifer yr eiddo** | | **Gwerth Presennol Iawndal (£x1000)** |
| *Lleoliad* | *Pres.* | *Masn.* | | *Pres.* | *Masn.* | | *Pres.* | *Masn.* | | *Pres.* | *Masn.* | |
| Porth Neigwl | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 340 | 2 | 0 | 49 |
| Dwyrain Aberdaron | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4 | 1 | 851 | 4 | 1 | 45 |
| Aberdaron | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | | | | | | | | | | **Cyfanswm PDZ1** | **82** |
| Nodiadau: Pennwyd gwerth presennol iawndal ar gyfer 1m o gynnydd yn lefel y môr mewn 100 mlynedd. | | | | | | | | | | | | |
| Gwybodaeth arall: Byddai canol glan môr a chraidd pentref Aberdaron yn cael eu colli. Nid yw iawndal yn cynnwys dim ar gyfer gwerth ychwanegol cysylltiedig â'r eglwys a'r fynwent. | | | | | | | | | | | | |

Pennwyd yr iawndal llifogydd canlynol trwy ddefnyddio MDSF. Amcan y ffigurau hyn yw nodi maint ac effaith perygl llifogydd yn hytrach na bod yn arfarniad economaidd manwl. Mewn llawer o ardaloedd byddai niferoedd sylweddol o eiddo'n agored i lifogydd gyda'r digwyddiadau amlach dan Dim Ymyriad Gweithredol a Gyda Rheoli Presennol, caniatawyd gwerth enwol colled ulw yn y tabl ar gyfer eiddo mewn perygl aml; nid yw hyn yn gyffredinol yn cynnwys gwerthoedd mewn perygl ar hyn o bryd ar gyfer y digwyddiad 1:1 flwyddyn, ymhen 50 mlynedd ar gyfer y digwyddiad 1:10 mlynedd ac ymhen 100 mlynedd ar gyfer y digwyddiad 1:50 mlynedd.

### Asesiad o Berygl Llifogydd

| | **Perygl llifogydd llanwol 2010** | | | **Perygl llifogydd llanwol 2060** | | | **Perygl llifogydd llanwol 2110** | | | **perygl llanwol 2m o gynnydd yn lefel y môr** | | **Gwerth Presennol Iawndal (£x1000)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dim Ymyriad Gweithredol** | **Nifer yr eiddo** | | **AAD x £k** | **Nifer yr eiddo** | | **AAD x £k** | **Nifer yr eiddo** | | **AAD x £k** | **Nifer yr eiddo** | | |
| *Lleoliad* | <1:10 ml. | >1:10 ml. | | <1:10 ml. | >1:10 ml. | | <1:10 ml. | >1:10 ml. | | <1:10 ml. | >1:10 ml. | |
| Aberdaron | 0 | 1 | 0.05 | 1 | 1 | 0.66 | 2 | 10 | 21.57 | 15 | 3 | 74 |
| | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | **Cyfanswm PDZ14** | 0.14 |

| **Gyda Rheoli Presennol** | **Nifer yr eiddo** | | **AAD x £k** | **Nifer yr eiddo** | | **AAD x £k** | **Nifer yr eiddo** | | **AAD x £k** | **Nifer yr eiddo** | | **Gwerth Presennol Iawndal (£x1000)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Lleoliad* | <1:10 ml. | >1:10 ml. | | <1:10 ml. | >1:10 ml. | | <1:10 ml. | >1:10 ml. | | <1:10 ml. | >1:10 ml. | |
| Aberdaron | 0 | 1 | 0.05 | 0 | 2 | 0.26 | 0 | 12 | 0.1 | 12 | 6 | 6 |
| | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | **Cyfanswm PDZ14** | 0.14 |

## Tabl 2. Asesiad Cyffredinol o Amcanion

Mae'r tabl canlynol yn rhoi asesiad at ei gilydd o sut mae'r ddau senario man cychwyn yn effeithio ar yr amcanion cyflawn. Caiff amcanion penodol eu cyflwyno'n fanylach yn Atodiad E. Bwriad y tabl yw rhoi asesiad lefel uchel dechreuol o'r ddau senario man cychwyn, gan dynnu sylw at bynciau llosg all godi. Caiff y materion hyn eu trafod yn yr adran ganlynol, gan edrych ar wahanol senarios rheoli y bydd polisi CRhT2 yn deillio ohonynt wedyn.

| AMCAN RHANDDEILIAD | NAI | | | WPM | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Methu | Diduedd | Derbyniol | Methu | Diduedd | Derbyniol |
| Lleihau perygl i fywyd. | ■ | | | | ■ | |
| Amddiffyn eiddo rhag colled trwy lifogydd ac erydiad. | ■ | | | | ■ | |
| Lleihau'r angen i gynyddu ymdrech a rheolaeth amddiffynfeydd arfordirol. | | | ■ | ■ | | |
| Osgoi dibynnu ar amddiffyniad, yn enwedig lle mae perygl methiant trychinebus yn Aberdaron. | | | ■ | ■ | | |
| Cynnal mynediad at bentref Aberdaron a chysylltedd ag Aber-soch, Nefyn ac anheddau mwy ymhellach i'r dwyrain. | | ■ | | | | ■ |
| Cynnal mynediad i Aberdaron fel canolfan gefnogi'r cymunedau gwledig. | ■ | | | | | ■ |
| Cynnal defnydd adloniadol o'r traethau a'r baeau | | ■ | | ■ | | |
| Cynnal mynediad at yr arfordir gan gynnwys parcio ar gyfer ceir a chyfleusterau. | | | ■ | | | ■ |
| Cynnal mynediad ar gyfer defnyddio cychod a gweithgaredd adloniadol cysylltiedig | ■ | | | ■ | | |
| Cynnal mynediad at Ynys Enlli. | | ■ | | | ■ | |
| Cynnal cymeriad a chyfanrwydd cymunedau arfordirol. | ■ | | | | ■ | |
| Nodi perygl a lleihau perygl colli nodweddion treftadaeth lle bo modd. | | ■ | | | ■ | |
| Cynnal tirwedd hanesyddol. | | ■ | | | ■ | |
| Atal dirywiad neu darfu ar safleoedd hanesyddol a'u hamgylchedd. | ■ | | | | ■ | |
| Cynnal neu wella cyflwr neu gyfanrwydd y safleoedd dynodedig rhyngwladol (ACA, AGA) a nodweddion diddordeb yng nghyd-destun cyfundrefn arfordirol ddynamig. | | | ■ | | | ■ |
| Cynnal neu wella cyflwr neu gyfanrwydd y safleoedd dynodedig cenedlaethol (SoDdGA) a nodweddion diddordeb yng nghyd-destun cyfundrefn arfordirol ddynamig. | | | ■ | | | ■ |
| Cynnal a gwella dealltwriaeth addysgol a gwyddonol o ddaeareg a geomorffoleg. | | | ■ | | | ■ |
| Osgoi difrodi'r dirwedd naturiol a'i gwella. | | | ■ | | ■ | |
| Cynnal y dirwedd ddynol a chymeriad cymunedau. | ■ | | | ■ | | |
| Cynnal mynediad i aneddiadau mwy ar gyfer cymunedau amaethyddol. | ■ | | | ■ | | |

## 5 Trafodaeth a Datblygu Polisi Manwl

Yn Aberdaron mae'r gwahaniaeth rhwng y ddau senario man cychwyn. Yma, mae'n amlwg bod y senario NAI yn methu cynnal y pentref pwysig hwn, tra bo senario WPM yn codi materion ynghylch sut mae modd cynnal y pentref a chynnal gwerthoedd hanfodol y gymuned ar yr un pryd, yn lleol ac mewn perthynas â'i swyddogaeth strategol o fewn y rhanbarth.

Cyn trafod yr ardal benodol hon, caiff y materion cysylltiedig â pharhau polisi Dim Ymyriad Gweithredol, i bob diben, yng ngweddill yr ardal eu trafod.

Y prif faterion yn yr ardal ehangach yw rheolaeth ym Mhorth Neigwl ac effaith leol NAI ar yr amrywiol gymunedau bach ar hyd y morlin.

Ym Mhorth Neigwl, ychydig o gyfle nac angen ymyrryd sydd. Mae rheolaeth leol yn y pen deheuol, gyda'r bwriad o adael i'r twyni dreiglo'n ôl a derbyn erydiad araf parhaus yn ddoeth wrth gynnal defnydd yr ardal a'r morlin naturiol sy'n cynnal y defnydd hwnnw. Byddai angen i fynediad at y draethlin addasu ochr yn ochr â chilio'r lan yn naturiol. Ni ystyrir bod perygl torri trwodd i ddyffryn Afon Soch a dim colled eiddo.

Yn rhan ganol y bae, byddai llawer mwy o dir amaethyddol yn cael ei golli ond ni fyddai dim colled eiddo i'w ddisgwyl, hyd yn oed gyda mwy o erydiad oherwydd cynnydd yn lefel y môr. Nid oes unrhyw gyfiawnhad ymarferol dros amddiffyn neu hyn oed arafu cyflymder yr erydiad ac yma, eto, mae'n amlwg bod polisi Dim Ymyriad Gweithredol yn ddoeth.


Ar ben gogleddol y bae, mae materion mwy strategol bwysig. Mae'r ffordd o'r bae i'r Rhiw ac ymlaen i Aberdaron mewn perygl, efallai tua diwedd y cyfnod cyntaf, ymhen rhyw 20 mlynedd. Symudwyd un darn allweddol o'r ffordd eisoes a gallai fod modd adlinio mwy arni. Fodd bynnag, heb symud dros 1km o'r ffordd yn ôl, efallai gymaint â 400m rhwng Treheli a Thŷ Mawr, byddai'n rhesymol disgwyl y gallai'r ffordd ddal i gael ei cholli dros y 100 mlynedd nesaf. Yn ogystal â'r ffordd, gallai Siop Penyrallt ac efallai Tŷ Mawr a Threheli fod mewn perygl dros gyfnod y CRhT. Mae'n eithaf anodd gwneud rhagfynegiadau manwl o erydiad a chiliad clogwyni yn yr ardal hon oherwydd natur newidiol y clogwyn ac ansicrwydd ynghylch ble mae craig waelod galed y pentir gogleddol yn creu sylfaen fwy cadarn. Mae polisi'r draethlin o Ddim Ymyriad Gweithredol yn dechnegol ddoeth, o dderbyn anhawster ceisio sefydlogi'r llethr arfordirol neu, yn wir amddiffyn rhag erydu'r droed, a hefyd y difrod y gallai unrhyw agwedd o'r fath beri i werth gwarchod natur yr ardal (SoDdGA ac ACA). Penderfyniad i'r Awdurdod Priffyrdd fyddai cyfiawnhau symud y ffordd, ar sail parhad yr angen i gadw golwg ar ymddygiad y llethr arfordirol. Fodd bynnag, byddai cynnal y ffordd arfordirol hon yn amheus a gall darpariaeth arall, neu uwchraddio mynediad arall, fod yn ateb mwy priodol. Yna mae goblygiadau o ran gwerth dal i gynnal y ffordd mewn mannau eraill ar hyd y lan, yn enwedig i'r dwyrain o Aberdaron.

Mewn cylchoedd eraill, fel yr awgrymwyd yn CRhT1, byddai polisi o addasu defnydd y parth arfordirol yn fwy priodol na cheisio amddiffyn ardaloedd lleol. Braidd yn academaidd yw gofyn a yw hyn yn dod o fewn polisi cyffredinol o Ddim Ymyriad Gweithredol neu Adlinio Rheoledig. Nid oes unrhyw gyfiawnhad gwirioneddol dros ymyrryd mewn prosesau arfordirol, a byddai gwneud hynny mewn unrhyw ffordd arwyddocaol yn effeithio ar yr union rinweddau sydd gan yr arfordir i'w cynnig i'r cylch. Bwriad rheoli holl ardaloedd, heblaw yn Aberdaron, yw caniatáu datblygiad naturiol y draethlin. Yn yr achos hwn, diffiniwyd hyn fel polisi Dim Ymyriad Gweithredol. Efallai na

fyddai hyn yn rhwystro rheoli byrdymor lleol iawn wrth hybu addasu defnydd o'r ardal. Yn benodol:

- Ar Ynys Enlli byddai angen addasu'r safle glanio cychod.
- Ym Mhorth Oer mae'r ystafell de a'r mynediad mewn sefyllfa gymharol gysgodol yn y bae. Byddai angen gwneud penderfyniadau yn y dyfodol ar sut mae modd cynnal swyddogaeth yr asedau hyn ar yr un pryd â gadael i'r morlin gilio.
- Ym Mhorth Colmon fe allai fod perygl yn y dyfodol (yn y trydydd cyfnod) i eiddo Glanmor. Yn y fan hon fe all fod cyfle i wella yn eithaf lleol yr amddiffyniad i'r clogwyn craig isel ond byddai hyn yn dibynnu'n hanfodol ar gyflymder cynnydd yn lefel y môr yn y dyfodol.
- Mae'n debygol y bydd llifogydd yn nyffryn Afon Geirch er bod hyn yn annhebygol o effeithio'n sylweddol ar naill ai'r SoDdGA na'r ACA, nac ar ddefnydd yr ardal.
- Byddai mwy o erydu a pherygl tirlithriad ar wyneb gorllewinol pentir Carreg Ddu a, thra bo'n anodd rhagfynegi erydiad a chiliad yn yr ardal hon, fe all fod angen addasu'r cwrs golff i ystyried hyn.

Mae gweddill y drafodaeth hon yn ymwneud â Bae Aberdaron. Yn ystod y tymor byr i ganolig y bwriad yw Cadw'r Llinell o flaen y pentref, trwy gynnal yr amddiffynfeydd presennol. Y mater pwysig yw sut i reoli hyn yn y dyfodol, os yw gwerthoedd pwysig y pentref i'r rhanbarth i gael eu cynnal. Wrth ystyried y senarios gwahanol at y dyfodol, nid yw symud y llinell ymlaen yn dderbyniol am nad oes unrhyw wir fantais, cyfle, na dymuniad i greu mwy o le defnyddiadwy. Lled yw'r broblem, i ganiatáu a chynnal traethlin sy'n gweithredu'n fwy naturiol lle mae modd cynnal defnydd pwysig y traeth ar yr un pryd â dal i gynnal asedau pwysig y draethlin fel yr eglwys, y gwestai a gwasanaethau craidd rhan isaf y pentref, yn wyneb cynnydd yn lefel y môr. Byddai symud y llinell ymlaen yn gwaethygu'r broblem.




Ni fyddai Gwneud Dim yn dderbyniol oherwydd y byddai natur y pentref a'i werth i'r cylch a thwristiaeth ranbarthol yn cael ei golli i bob diben.

Yn ystod yr ymgynghori, awgrymwyd a thrafodwyd y cyfle i dynnu neu adlinio'r wyneb craig i'r gorllewin o'r pentref. Cododd hyn fater pa newidiadau allai fod yn dderbyniol, ac

a allai roi cyfle i liniaru'r problemau presennol heb golli gwerthoedd craidd yr ardal. Caiff newid ei ystyried yn angenrheidiol i gyflawni hyn.

Mae adlinio neu ddileu amddiffynfeydd i'r gorllewin o'r pentref yn cynnig cyfle i greu a chynnal traeth mwy naturiol, fyddai'n cynorthwyo cynnal atyniad a defnydd yr ardal. Y prif beryglon cysylltiedig â hyn fyddai i'r ffordd sy'n rhedeg allan tua'r gorllewin. Mae'r ffordd hon yn bwysig yn lleol, er y byddai mynediad arall yn bosibl ar hyd y ffordd uchaf y tu cefn i'r pentref. Felly, nid yw'r ffordd yn cael ei gweld fel cyfyngiad mawr. Gallai amseriad unrhyw golled o'r fath fod yn allweddol ac, fel y cyfryw, byddai'n angenrheidiol ymchwilio'n fanylach i'r perygl ac efallai edrych ar ryw fath o reoli erydiad y llethr arfordirol ar ffurf grwynau craig.

Mae cyswllt agos rhwng rheoli'r darn gorllewinol hwn a rheoli prif lan môr y pentref; yn arbennig rheoli'r pen dwyreiniol lle mae'r amddiffynfa eisoes yn ymddangos fel ychydig o bentir. Mae gan hwn swyddogaeth bwysig wrth angori'r draethlin ar hyd glan môr y pentref a chynnal y traeth uchaf tua'r gorllewin. Os yw glan môr y pentref i gael ei gynnal, mae'n ymddangos yn anochel bod y pentir eginol hwn yn cael ei reoli fel y cyfryw. Pe bai'r mur dwyreiniol hwn yn cael methu, neu'n cael ei adlinio ymhellach i'r tir, yna'r prif wasgbwynt ar yr arfordir fyddai mur yr eglwys, i bob diben yn creu'r un sefyllfa ag ar hyn o bryd ond mewn man llai ffafriol. Pa le bynnag sy'n cael ei gynnal, byddai raid derbyn bod y bae cyfan yn mynd i weithredu fwy fel dau is-fae ar y cefndraeth yn y dyfodol.

Yn hytrach na chaniatáu neu orfod ymestyn yr amddiffynfeydd ymhellach i'r dwyrain wrth i'r ddau is-fae hyn ffurfio, byddai'n ymddangos yn ddoethach siapio unrhyw bentir newydd mewn gwirionedd i greu gwell parth trosiannol rhwng darn amddiffynedig y pentref a'r arfordir sy'n datblygu'n naturiol i'r dwyrain. Ni fyddai'n fwriad creu amddiffyniad uniongyrchol i'r dwyrain o'r amddiffynfa bresennol. O ganlyniad byddai disgwyl colli ffordd yr arfordir a'r pedwar eiddo ychydig y tu allan i'r pentref yn yr hirdymor, efallai yn ystod y trydydd cyfnod ond efallai'n para tan ddiwedd y 100 mlynedd. Byddai modd rheoli'r pentir eginol i'r dwyrain o'r amddiffynfeydd yn fwy cadarnhaol i liniaru hyn i ryw raddau.

O'r drafodaeth gynharach mewn perthynas â Phorth Neigwl, y disgwyl yw y gall ffordd yr arfordir gael ei cholli mewn mannau eraill yn y dyfodol. Tra bo'r ffordd yn bwysig fel llwybr tramwy rhwng Aberdaron a Rhiw, byddai'i swyddogaeth fel prif ffordd drwodd ar hyd yr arfordir wedi'i cholli eisoes. Byddai angen trafod hyn ymhellach gyda'r Awdurdod Priffyrdd wrth edrych eto ar fynediad a rhwydweithiau cludiant ehangach yn gyffredinol drwy'r ardal gyfan.

Felly, mae gennym sefyllfa'n datblygu o ran rheolaeth yn y dyfodol. Er mwyn cynnal y pentref, caiff mwy o bwyslais ei roi ar sefydlu man rheoli'r lan uchaf ym mhen dwyreiniol y pentref a gadael i'r llethr arfordirol yn y pen gorllewinol adlinio'n fwy naturiol (er y byddai hynny mewn ffordd reoledig yn ôl pob tebyg). Byddai'n dal i fod yn bwysig caniatáu rhywfaint o symudiad deunydd traeth ar hyd y blaendraeth isaf rhwng cyflenwad gwaddod y clogwyni dwyreiniol a'r ardal lle byddai traeth yn cael ei hybu i ddatblygu yn y gorllewin. Byddai hyn yn rhoi cyfyngiadau ar faint unrhyw waith ar bentir newydd i'r dwyrain o'r pentref.

Gyda'r senario rheoli hwn, byddai traeth yn dal i gael ei golli ar hyd rhan ganol y pentref gyda'r angen i atgyfnerthu a chynyddu uchder amddiffynfeydd yn yr ardal hon. Er mwyn creu mwy o gyfle i ddefnyddio'r traeth yn well, gellid ystyried hefyd adlinio tafod yr afon a amddiffynnwyd yn drwm. I bob diben, yr hyn sy'n cael ei ragweld yw addasu glan môr y

pentref i gyd i ganiatáu ffurfio is-fae ychydig mwy diffiniedig a dyfnach rhwng y clogwyni tua'r gorllewin a'r pentir lleol i'r dwyrain.

Byddai hyn yn gofyn cynllunio mwy manwl, gan edrych ar y goblygiadau o ran addasu defnydd y ffordd a chraidd y pentref, yn gymaint â dim ond adlinio'r amddiffynfeydd. Nid yw cylch gwaith y CRhT yn caniatáu mynd â hyn ymhellach, gan y byddai'n amhriodol i'r CRhT ystyried manylion penodol heb astudiaeth lawer manylach. Y bwriad ar gyfer Aberdaron a'r draethlin tua'r gorllewin fyddai Adlinio Rheoledig (a threfnus), gan fwriadu Dim Ymyriad Gweithredol yn hanner dwyreiniol y bae.

O ran polisi, byddai'r bwriad hwn yn cael ei gyflawni trwy Gadw'r Llinell o flaen y pentref yn ystod y cyfnod cyntaf, gydag Adlinio Rheoledig yn yr ail gyfnod a sefydlu sefyllfa newydd ar gyfer Cadw'r Llinell yn y trydydd cyfnod. Y polisi ar gyfer hanner dwyreiniol y bae fyddai Dim Ymyriad Gweithredol ymhob un o'r tri chyfnod.

## 6 Crynodeb Rheoli.

Mewn gwirionedd mae'r Unedau Polisi a ddiffiniwyd gan y drafodaeth uchod yn eithaf tebyg i'r Unedau Rheoli a ddiffiniwyd yn CRhT1, er iddynt gael eu rhannu ymhellach eto i dynnu sylw at anghenion rheoli penodol. Fodd bynnag, mae angen ystyried yr unedau polisi hyn fel elfennau o fewn bwriad ehangach y CRhT ar reoli'r arfordir cyfan yn y dyfodol. Fel y cyfryw, caiff yr Unedau Polisi eu casglu ynghyd mewn Ardaloedd Rheoli, gan gydnabod yr angen i ystyried sut mae polisi mewn unedau penodol yn rhyngweithio. Yr Ardaloedd Rheoli yw:

**MA34 PORTH NEIGWL:** O Drwyn Cilan i Drwyn Talfarach

| **Uned Bolisi** | | **Cynllun Polisi** | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **2025** | **2055** | **2105** | **Sylw** |
| 14.1 | Gorllewin Mynydd Cilan | NAI | NAI | NAI | |
| 14.2 | Dwyrain Porth Neigwl | NAI | NAI | NAI | Ailaddasu lleol a rheoli'r twyni |
| 14.3 | Canol Porth Neigwl | NAI | NAI | NAI | |
| 14.4 | Gorllewin Porth Neigwl | NAI | NAI | NAI | Adlinio neu golli'r ffordd yn y dyfodol |
| 14.5 | Rhiw | NAI | NAI | NAI | |
| Allwedd: HTL – Cadw'r Llinell, A – Symud y Llinell Ymlaen, NAI – Dim Ymyriad Gweithredol<br>MR – Adlinio Rheoledig | | | | | |

**MA35 PORTH YSGO:** O Drwyn Talfarach i Drwyn Penrhyn

| **Uned Bolisi** | | **Cynllun Polisi** | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **2025** | **2055** | **2105** | **Sylw** |
| 14.6 | Ysgo | NAI | NAI | NAI | . |
| Allwedd: HTL – Cadw'r Llinell, A – Symud y Llinell Ymlaen, NAI – Dim Ymyriad Gweithredol<br>MR – Adlinio Rheoledig | | | | | |

**MA36 ABERDARON:** O Drwyn Penrhyn i Ben y Cil

| Uned Bolisi | | Cynllun Polisi | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **2025** | **2055** | **2105** | **Sylw** |
| 14.7 | Dwyrain Aberdaron | NAI | NAI | NAI | Ystyried sut i reoli'r trawsnewid rhwng glan môr pentref Aberdaron a'r uned hon i ganiatáu addasu. |
| 14.8 | Pentref Aberdaron a'r llethr arfordirol | HTL | MR | HTL | Datblygu Adlinio Rheoledig mewn fframwaith ar gyfer datblygu'r pentref yn gynaliadwy. Rhoi sylw i faterion cludiant. |
| 14.9 | Uwchmynydd | NAI | NAI | NAI | |
| Allwedd: HTL – Cadw'r Llinell, A – Symud y Llinell Ymlaen, NAI – Dim Ymyriad Gweithredol MR – Adlinio Rheoledig | | | | | |

**MA37 YNYS ENLLI**

| Uned Bolisi | | Cynllun Polisi | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **2025** | **2055** | **2105** | **Sylw** |
| 14.10 | Ynys Enlli | NAI | NAI | NAI | Ystyried addasu'r lanfa |
| Allwedd: HTL – Cadw'r Llinell, A – Symud y Llinell Ymlaen, NAI – Dim Ymyriad Gweithredol MR – Adlinio Rheoledig | | | | | |

**MA38 GOGLEDD-ORLLEWIN LLŶN:** O Ben y Cil i Garreg Du

| Uned Bolisi | | Cynllun Polisi | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **2025** | **2055** | **2105** | **Sylw** |
| 14.11 | Gogledd-orllewin Llŷn | NAI | NAI | NAI | Ni fyddai rheoli lleol yn cael ei rwystro i ganiatáu addasu defnydd o fewn egwyddor o ganiatáu datblygiad naturiol yr arfordir. |
| Allwedd: HTL – Cadw'r Llinell, A – Symud y Llinell Ymlaen, NAI – Dim Ymyriad Gweithredol MR – Adlinio Rheoledig | | | | | |

Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi datganiad cryno o fwriad ar gyfer rheoli pob Ardal Reoli, gan dynnu sylw at y materion allweddol a drafodwyd eisoes.

# PDZ14
## Datganiadau Ardaloedd Rheoli

**MA 34 Porth Neigwl**
*Trwyn Cilan i Drwyn Talfarach*

**MA 35 Porth Ysgo**
*Trwyn Talfarach i Drwyn Penrhyn*

**MA 36 Aberdaron**
*Trwyn Penrhyn i Ben y Cil*

**MA 37 Ynys Enlli**

**MA 38 Gogledd-orllewin Llŷn**
*Pen y Cil i Garreg Du*

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod y Lleoliad:** | **Porth Neigwl** |
| **Cyfeirnod yr Ardal Reoli:** | **M.A. 34** |
| **Parth Datblygu Polisi:** | PDZ14 |

* Sylwch: Seiliwyd mapio traethlin ddisgwyliedig ar gyfuniad o ddata arolygu, dadansoddi mapiau hanesyddol ac asesiad geomorffolegol gyda lwfans am gynnydd yn lefel y môr. Oherwydd ansicrwydd cynhenid rhagweld newid yn y dyfodol, mae'r rhagfynegiadau o angenrheidrwydd yn arwyddol. I'w defnyddio y tu hwnt i ddiben y cynllun rheoli traethlin, dylid cyfeirio at y data sylfaenol.

Caiff y disgrifiadau canlynol eu darparu i gynorthwyo dehongli'r map drosodd.

**Sefyllfa'r draethlin ymhen 100 mlynedd:**
Bwriad y mapiau canlynol yw crynhoi sefyllfa ddisgwyliedig y draethlin ymhen 100 mlynedd dan ddau senario "Gyda Rheoli Presennol" a gyda'r "Polisi Dewisol Drafft" sy'n cael ei gynnig trwy'r Cynllun Rheoli Traethlin.

- – – – – – Mewn rhai ardaloedd nid yw'r polisi dewisol yn newid o'r hyn yw gyda'r rheoli presennol. Mewn rhai ardaloedd lle mae amddiffynfeydd caled mae modd nodi hyn yn fanwl gywir. Mewn cylchoedd eraill mae mwy o ansicrwydd. Serch hynny, lle bo newid fel copa clogwyn yn debygol o ddiffinio'r draethlin yn hollol amlwg caiff amcangyfrif o'r sefyllfa ei ddangos fel llinell sengl.

- Lle bo gwahaniaeth rhwng Gyda Rheoli Presennol a'r Polisi Dewisol Drafft, caiff y gwahaniaeth hwn ei wneud trwy ddangos dwy linell wahanol:

——— Gyda Rheoli Presennol.
——— Polisi Dewisol Drafft.


**Parthau Perygl Llifogydd**

Parthau Perygl Llifogydd Cyffredinol. Caiff esboniad y parthau hyn ei ddarparu ar wefan Asiantaeth yr Amgylchedd www.environment-agency.gov.uk. Dengys y mapiau yn nogfen Ddrafft hon y CRhT lle gallai polisi CRhT ddylanwadu ar reoli perygl llifogydd.

Ardaloedd lle mae polisi drafft y CRhT yn bwriadu dal i reoli'r perygl hwn.

Ardaloedd lle byddai'r polisi'n caniatáu mwy o berygl llifogydd yn ystod y 100 mlynedd.

Dylid darllen y mapiau ar y cyd â thestun dogfen Drafft y CRhT.



Isgell Cynllun Rheoli Traethlin 9
Map Lleoliad Man Cychwyn
Ardal Reoli 33 & 34
Ardal Reoli
Uned Bolisi
Parth Datblygu Polisi
Henebion Cofrestredig
PU13.11
PU13.12
PU13.13
PU13.14
PU13.15
PU13.16
PU13.18
PU13.19
PU14.1
PU14.2
PU14.3
PU14.4
PU14.5
MA34
MA33
PORTH NEIGWL OR HELL'S MOUTH
0 0.75 1.5 Cilomedr
Atgynhyrchwyd o fapiau'r Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Rheolwr y Llyfrfa. Hawlfraint y Goron-trwydded neilltuedig AL: 100026380
Allwedd:
Sefyllfa'r Draethlin ym mhen 100 mlynedd:
Byddai'r Polisi Dewisol yr un â Gyda Rheoli Presennol
Gyda Rheoli Presennol pan fo hyn yn wahanol i'r Polisi Dewisol
Polisi Dewisol pan fo hyn yn wahanol i Gyda Rheoli Presennol
Ramsar
ACA
AGA
SoDdGa
GNG
Parth Perygl Llifogydd AA 3
Parth Perygl Llifogydd AA 3 lle na fyddai mwy o debygolrwydd llifogydd dan bolisi Drafft y CRhT
ROYAL HASKONING

## CRYNODEB O ARGYMHELLION A CHYFIAWNHAD Y CYNLLUN DEWISOL

### BWRIAD Y CYNLLUN:

Bwriad y cynllun yw gadael i'r draethlin a chlogwyni'r cefndraeth erydu a datblygu'n naturiol. Ar ben deheuol y bae, fe all fod lle ar gyfer rheoli addasu lleol i gefnogi mynediad, y maes parcio a safle gwersylla. Byddai hyn yn amodol ar gymeradwyaeth arferol ond ni ystyrir y byddai'n effeithio'n sylweddol ar brosesau traethlin. Yn y pen gogleddol fe all fod angen dargyfeirio'r ffordd yn y dyfodol. Mae'n debygol y bydd eiddo'n cael ei golli yn yr ardal hon yn y dyfodol.

### MATERION ALLWEDDOL / RISG AC ANSICRWYDD:

Mae ansicrwydd o ran amseriad yr effeithiau. Bydd yn bwysig cysylltu hyn ag arolygu cenedlaethol o gynnydd yn lefel y môr a newid mwy cyffredinol yn yr hinsawdd and shoreline behaviour.

### CAMAU GWEITHREDU:

| CAM GWEITHREDU | PARTNERIAID | |
|---|---|---|
| Arolygu'r draethlin | CG | |
| Cynllunio addasu | Priffyrdd<br>Yr YG | Tirfeddianwyr |

## Cyflawni'r Cynllun

**CRYNODEB O BOLISÏAU PENODOL**

| Uned Bolisi | | Cynllun Polisi | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **2025** | **2055** | **2105** | **Sylw** |
| 14.1 | Gorllewin Mynydd Cilan | NAI | NAI | NAI | |
| 14.2 | Dwyrain Porth Neigwl | NAI | NAI | NAI | Ailaddasu lleol a rheoli'r twyni |
| 14.3 | Canol Porth Neigwl | NAI | NAI | NAI | |
| 14.4 | Gorllewin Porth Neigwl | NAI | NAI | NAI | Adlinio neu golli'r ffordd yn y dyfodol |
| 14.5 | Rhiw | NAI | NAI | NAI | |
| Allwedd: HTL – Cadw'r Llinell, A – Symud y Llinell Ymlaen, NAI – Dim Ymyriad Gweithredol<br>MR – Adlinio Rheoledig | | | | | |

| POLISI DEWISOL I WEITHREDU'R CYNLLUN: | |
|---|---|
| **O'r presennol** | Dim Ymyriad Gweithredol. |
| **Tymor canolig** | Dim Ymyriad Gweithredol. |
| **Hirdymor** | Dim Ymyriad Gweithredol. |

## Goblygiadau'r Cynllun

### Newidiadau o'r Rheoli Presennol

Dim newid rheoli arwyddocaol.

### Crynodeb Economaidd

| Economeg (£k PV) | erbyn 2025 | erbyn 2055 | erbyn 2105 | Cyfanswm PV £k |
|---|---|---|---|---|
| Iawndal NAI | 0.0 | 0.0 | 49.0 | 49.0 |
| Iawndal y Cynllun Dewisol | 0.0 | 0.0 | 49.0 | 49.0 |
| Buddiannau | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Costau | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |

### Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydiad

#### Colled Debygol

Mae'n debygol y bydd 2 eiddo'n cael eu colli, efallai nid cyn y trydydd cyfnod.

#### Buddiannau'r Cynllun

Mae'r cynllun yn rhoi agwedd gynaliadwy tymor hwy at reoli'r draethlin.

## **Crynodeb o Asesiad Amgylcheddol Strategol** (gan gynnwys HRA)

| PDZ 14 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan AAS** | **Effaith y Polisi Dewisol ar gyfer pob Cyfnod** | | | |
| | **1** | **2** | **3** | **Lliniaru** |
| Unedau Polisi 14.1 i 14.11 | | | | |
| Cynnal prosesau naturiol, cynnal a gwella cyfanrwydd safleoedd gwarchod natur a ddynodwyd yn rhyngwladol. Cynnal / cyflawni cyflwr ffafriol o'u nodweddion diddordeb (cynefinoedd a rhywogaethau). | | | | |
| Gwarchod ac osgoi effeithiau andwyol ar safleoedd gwarchod natur a ddynodwyd yn genedlaethol a chyfoethogi'r diddordeb dynodedig lle bo hynny'n ymarferol. Cynnal / cyflawni cyflwr ffafriol. | | | | |
| Gwarchod ac osgoi effeithiau andwyol ar gynefinoedd BAP cenedlaethol a lleol a'u cyfoethogi lle bo hynny'n ymarferol. | | | | |
| Cynnal prosesau naturiol a chadw datguddiadau daearegol yn holl safleoedd daearegol a ddynodwyd yn genedlaethol. | | | | |
| Gwarchod a chyfoethogi tirweddau a ddynodwyd yn genedlaethol mewn cysylltiad â pheryglon llifogydd arfordirol ac erydiad ac osgoi gwrthdaro ag Amcanion AHNE a Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. | | | | |
| Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i asedau rhestredig ac asedau etifeddiaeth ddiwylliannol eraill pwysig yn rhyngwladol a chenedlaethol, ynghyd â'u safleoedd a'u hamgylchedd. | | | | Cloddio a chofnodi |
| Lleihau effaith polisïau ar weithrediadau a gweithgareddau morol. | | | | Arolygu a dylunio priodol |
| Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i isadeiledd hanfodol a chynnal gwasanaethau hanfodol. | | | | |
| Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i dir amaethyddol a gweithgareddau garddwriaethol. | | | | |
| Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i bobl ac eiddo preswyl. | | | | |
| Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i gyfleusterau cymunedol, adloniadol ac amwynderol allweddol. | | | | |
| Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i asedau a gweithgareddau diwydiannol, masnachol, economaidd a thwristiaeth. | | | | |

Gall lliniaru cysylltiedig â nodweddion yr amgylchedd hanesyddol sy'n cael eu heffeithio gynnwys cloddio a chofnodi, ac arolygu cyflymder erydu.

**Mae'r tabl hwn yn rhoi crynodeb o'r SEA (atodiad E) a dylid cyfeirio at yr Atodiad i gael manylion llawn yr asesiad.**

**Mae’r ddwy adran nesaf hyn yn rhoi crynodeb penawdau o ganfyddiadau’r HRA (Atodiad G) a’r WFA (Atodiad H). Dylid cyfeirio fel y bo’n briodol at yr Atodiadau hyn i gael manylion llawn.**

### CRYNODEB HRA

Ac eithrio Uned Bolisi 14.8, mae morlin PDZ14 i gyd yn ddiamddiffyn ar hyn o bryd ac mae polisi’r CRhT yn y PDZ hwn yn darparu ar gyfer deg polisi NAI ymhob un o’r tri chyfnod ar hyd mwyafrif y morlin i ddarparu ar gyfer datblygiad y clogwyni môr naturiol (trwy erydiad), gyda HTL a MR wedi’u dynodi fel y polisïau dewisol mewn un lleoliad Uned Bolisi (Uned Bolisi 14.8). Mae PDZ 14 yn cynnwys nodweddion diddordeb o ACA De Pen Llŷn a’r Sarnau, ACA Corsydd Llŷn, ACA Clogwyni Llŷn, AGA Mynydd Cilan, Trwyn y Wylfa ac Ynysoedd Tudwal, ac AGA Arfordir Aberdaron ac Ynys Enlli.

***Goblygiadau i gyfanrwydd y Safle:*** Bydd cynefinoedd yn cael eu colli o’r ACA ac AGA ar hyd arfordir PDZ 14. Fodd bynnag, gan fod polisïau NAI yn berthnasol iddynt, ystyrir bod colli cynefinoedd i erydiad mewn ymateb i brosesau naturiol ac nid i bolisïau’r CRhT ac **ni fydd effaith andwyol ar gyfanrwydd** ACA De Pen Llŷn a’r Sarnau, ACA Corsydd Llŷn, ACA Clogwyni Llŷn, AGA Mynydd Cilan, Trwyn y Wylfa ac Ynysoedd Tudwal, nac AGA Arfordir Aberdaron ac Ynys Enlli.

## CASGLIAD CRYNO O'R ASESIAD FFRAMWAITH DŴR

Hepgorwyd yr ardal hon o'r asesiad.

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod y Lleoliad:** | **Porth Ysgo** |
| **Cyfeirnod yr Ardal Reoli:** | **M.A. 35** |
| **Parth Datblygu Polisi:** | PDZ14 |

* Sylwch: Seiliwyd mapio traethlin ddisgwyliedig ar gyfuniad o ddata arolygu, dadansoddi mapiau hanesyddol ac asesiad geomorffolegol gyda lwfans am gynnydd yn lefel y môr. Oherwydd ansicrwydd cynhenid rhagweld newid yn y dyfodol, mae'r rhagfynegiadau o angenrheidrwydd yn arwyddol. I'w defnyddio y tu hwnt i ddiben y cynllun rheoli traethlin, dylid cyfeirio at y data sylfaenol.

Caiff y disgrifiadau canlynol eu darparu i gynorthwyo dehongli'r map drosodd.

**Sefyllfa'r draethlin ymhen 100 mlynedd:**
Bwriad y mapiau canlynol yw crynhoi sefyllfa ddisgwyliedig y draethlin ymhen 100 mlynedd dan ddau senario "Gyda Rheoli Presennol" a gyda'r "Polisi Dewisol Drafft" sy'n cael ei gynnig trwy'r Cynllun Rheoli Traethlin.

- Mewn rhai ardaloedd nid yw'r polisi dewisol yn newid o'r hyn yw gyda'r rheoli presennol. Mewn rhai ardaloedd lle mae amddiffynfeydd caled mae modd nodi hyn yn fanwl gywir. Mewn cylchoedd eraill mae mwy o ansicrwydd. Serch hynny, lle bo newid fel copa clogwyn yn debygol o ddiffinio'r draethlin yn hollol amlwg caiff amcangyfrif o'r sefyllfa ei ddangos fel llinell sengl.


- Lle bo gwahaniaeth rhwng Gyda Rheoli Presennol a'r Polisi Dewisol Drafft, caiff y gwahaniaeth hwn ei wneud trwy ddangos dwy linell wahanol:

Gyda Rheoli Presennol.
Polisi Dewisol Drafft.

**Parthau Perygl Llifogydd**

Parthau Perygl Llifogydd Cyffredinol. Caiff esboniad y parthau hyn ei ddarparu ar wefan Asiantaeth yr Amgylchedd www.environment-agency.gov.uk. Dengys y mapiau yn nogfen Ddrafft hon y CRhT lle gallai polisi CRhT ddylanwadu ar reoli perygl llifogydd.
Ardaloedd lle mae polisi drafft y CRhT yn bwriadu dal i reoli'r perygl hwn.
Ardaloedd lle byddai'r polisi'n caniatáu mwy o berygl llifogydd yn ystod y 100 mlynedd.

Dylid darllen y mapiau ar y cyd â thestun dogfen Drafft y CRhT.


Isgell Cynllun Rheoli Traethlin 9
Map Lleoliad Man Cychwyn
Ardal Reoli 35, 36 & 37
Ardal Reoli
Uned Bolisi
Parth Datblygu Polisi
Henebion Cofrestredig
Caergybi
Bae Colwyn
Bangor
Caernarfon
Dolgellau
Aberystwyth
Abergwaun
Caerfyrddin
Abertawe
PU14.6
PU14.7
PU14.8
PU14.9
PU14.10
MA35
MA36
MA37
Aberdaron Bay
BARDSEY SOUND
BARDSEY ISLAND / YNYS ENLLI
Atgynhyrchwyd o fapiau'r Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Rheolwr y Llyfrfa. Hawlfraint y Goron- trwydded neilltuedig AL 100026380
0 0.75 1.5 Cilomedr
Allwedd:
Sefyllfa'r Draethlin ym mhen 100 mlynedd:
Byddai'r Polisi Dewisol yr un â Gyda Rheoli Presennol
Gyda Rheoli Presennol pan fo hyn yn wahanol i'r Polisi Dewisol
Polisi Dewisol pan fo hyn yn wahanol i Gyda Rheoli Presennol
Ramsar
ACA
AGA
SoDdGa
GNG
Parth Perygl Llifogydd AA 3
Parth Perygl Llifogydd AA 3 lle na fyddai mwy o debygolrwydd llifogydd dan bolisi Drafft y CRhT
ROYAL HASKONING

## CRYNODEB O ARGYMHELLION A CHYFIAWNHAD Y CYNLLUN DEWISOL

### BWRIAD Y CYNLLUN:

Bwriad y cynllun yw caniatáu datblygiad naturiol y draethlin.

### MATERION ALLWEDDOL / RISG AC ANSICRWYDD:

Mae ansicrwydd ynghylch amseriad newidiadau. Bydd yn bwysig cysylltu hyn ag arolygu cenedlaethol o gynnydd yn lefel y môr a newid mwy cyffredinol yn yr hinsawdd.

### CAMAU GWEITHREDU:

| CAM GWEITHREDU | PARTNERIAID |
|---|---|
| Arolygu'r draethlin | CG |

## Cyflawni'r Cynllun

**CRYNODEB O BOLISÏAU PENODOL**

| Uned Bolisi | | Cynllun Polisi | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **2025** | **2055** | **2105** | **Sylw** |
| 14.6 | Ysgo | NAI | NAI | NAI | . |
| Allwedd: HTL – Cadw'r Llinell, A – Symud y Llinell Ymlaen, NAI – Dim Ymyriad Gweithredol<br>MR – Adlinio Rheoledig | | | | | |

| **POLISI DEWISOL I WEITHREDU'R CYNLLUN:** | |
|---|---|
| **O'r presennol** | Dim Ymyriad Gweithredol. |
| **Tymor canolig** | Dim Ymyriad Gweithredol. |
| **Hirdymor** | Dim Ymyriad Gweithredol. |

## GOBLYGIADAU'R CYNLLUN

### NEWIDIADAU O'R RHEOLI PRESENNOL

Dim newid rheoli arwyddocaol.

### CRYNODEB ECONOMAIDD

| Economeg (£k PV) | erbyn 2025 | erbyn 2055 | erbyn 2105 | Cyfanswm PV £k |
|---|---|---|---|---|
| Iawndal NAI | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Iawndal y Cynllun Dewisol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Buddiannau | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Costau | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |

### RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD AC ERYDIAD

#### COLLED DEBYGOL

Ni nodwyd unrhyw eiddo mewn perygl.

#### BUDDIANNAU'R CYNLLUN

Mae'r cynllun yn rhoi agwedd gynaliadwy tymor hwy at reoli'r draethlin.

| PDZ 14 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan AAS** | **Effaith y Polisi Dewisol ar gyfer pob Cyfnod** | | | |
| | **1** | **2** | **3** | **Lliniaru** |
| Unedau Polisi 14.1 i 14.11 | | | | |
